



DLG 08

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Communities, Equality and Local Government Committee  
Local Government Draft (Wales) Bill / Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft  
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg  
Response from: Welsh Language Commissioner

Christine Chapman AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

27/01/2016

## Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

1. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Rhoddodd y Comisiynydd sylwadau ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y *Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*; *Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Llywodraeth Leol a Phapur Gwyn - Datganoli Democratiaeth: Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus* sy'n berthnasol i'r Bil Drafft. Ymatebodd y Comisiynydd hefyd i ymgynghoriad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015.
2. Roedd ein sylwadau ar y *Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn tynnu sylw at y canlynol:
  - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystyriaethau canolog wrth gynllunio'r diwygiadau y bwriedir eu gwneud i Lywodraeth Leol, a hynny yn unol ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru a nodir yn *laith fyw: iaith byw*, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012-17.
  - Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith ymchwil a chynllunio sylweddol er mwyn sicrhau y bydd y newidiadau arfaethedig i Lywodraeth Leol yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
  - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn arbennig y dyletswyddau ieithyddol a osodir ar Awdurdodau Lleol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth gynllunio'r diwygiadau. Mae hyn yn arbennig yng nghyd-destun darparu gwasanaethau.
  - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried atebolrwydd o ran darparu gwasanaethau Cymraeg wrth ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.
  - Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r newidiadau yn y model cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg a ddaw yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
  - Dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r strwythurau llywodraethu a gweinyddu newydd, yn

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygybraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in Welsh and English



benodol o ran meithrin gweithleoedd cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a chynnwys negeseuon clir ynghylch disgwyliad strategol i gefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

3. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i rai o'r ystyriaethau uchod yn benodol mewn perthynas ag effaith ad-drefnu Llywodraeth Leol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy sefydlu Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol dan gadeiryddiaeth Rhodri Glyn Thomas AC.. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau adeiladol â Gweinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. Mae'r sylwadau isod yn ategu'r hyn a ddywedwyd gennym yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y *Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* ond mae'n cyfeirio'n benodol at rannau o'r Bil Drafft.

#### 4. Comisiynydd y Gymraeg

- 4.1 Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

- 4.2 Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:
  - Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
  - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- 4.3 Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- 4.4 Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

- 4.5 Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaethol. Felly, un o brif swyddogaethau'r Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

#### 5. Safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011



5.1 Fel y gwyddoch cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 20151 yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Mawrth 2015 ac fe ddaethant i rym ar 31 Mawrth 2015. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gosododd y Comisiynydd hysbysiadau cydymffurfio terfynol ar 26 sefydliad o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ym mis Medi 2015. Bydd gofyn i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i'w sefydliadau o 30 Mawrth 2016 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru, y 22 awdurdod lleol presennol a'r parciau cenedlaethol Cymru ymysg y 26 corff. Bydd gofyn iddynt gydymffurfio â safonau mewn 5 maes sef:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

## 6. Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol ym mhob cymuned yng Nghymru yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er hynny, dangosodd canlyniadau cyfrifiad 2011 fod y Gymraeg mewn sefyllfa fregus gyda'r niferoedd a chanran y boblogaeth sy'n ei siarad yn parhau i ostwng. At hynny, dangosodd y data fod nifer y cymunedau hynny lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith yn gostwng. Bellach siaredir y Gymraeg gan fwy na 70% o'r boblogaeth mewn 39 yn unig o'r 868 cymuned sydd yng Nghymru. Eto, siaredir y Gymraeg ym mhob cymuned yng Nghymru.

## 7. Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir

7.1 Mae Pennod 1 y rhan hon yn trafod yr ardaloedd llywodraeth leol newydd arfaethedig a manylir ar y cynigion posibl yn Nhabl 1 a Thabl 2 Atodlen 1 y Bil Drafft. Rwy'n croesawu sylwadau'r Llywodraeth yn y ddogfen ymgynghori sy'n rhoi ystyriaeth i'r opsiwn gorau o ran cefnogi'r Gymraeg. Rwyf o'r farn y dylai ad-drefnu Llywodraeth Leol fod yn gyfrwng i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol ac yn y gweithle. Yn hyn o beth dylid ystyried arferion ieithyddol presennol gweithleoedd yr awdurdodau lleol a fydd yn uno a dulliau o'u cryfhau. Mae diwygio llywodraeth leol yn gyfle unigryw i ehangu ac i ddatblygu'r gweithleoedd hyn trwy awdurdodau lleol Cymru gyfan ac i gyfrannu at nodau *laith fyw: laith byw*, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012-17<sup>2</sup> i gynyddu cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac i gryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned. Yn hyn o beth rwy'n croesawu sefydlu'r Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol.

7.2 Nodir yn y Memorandwm Esboniadol drafft mai'r 'bwriad yw y bydd Awdurdodau Cysgodol, sydd i'w hethol yn 2019, yn pennu enw eu Sir newydd (yn Gymraeg ac yn Saesneg)'. Dylid nodi yn hyn o beth nad oes i rai ardaloedd yng Nghymru enwau

<sup>1</sup> [http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi\\_20150996\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf) %e2%80%99r%20gymraeg%20(rhif%201)%202015/sub-ld10115-w.pdf [cyrchwyd 19/01/2016]

<sup>2</sup> <http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/?lang=cy> [cyrchwyd 19/01/2016]



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Saesneg, e.e. Powys, ac na fyddai felly yn rhesymol rhoi enw Saesneg ar nifer o'r Siroedd newydd arfaethedig.

7.3 Roedd yn ddiddorol gennyf nodi fod Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg, yn bwriadu y bydd y Pwyllgorau Pontio a sefydlir yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

## 8. Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

8.1 Mae'r Bil Drafft yn bwriadu rhoi'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol ac i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd. Mae hyn yn hwyluso modelau cyflawni eraill ac fe fydd yn fodd i'w galluogi i ddefnyddio dulliau newydd o weithredu. Gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol i'r dull o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gan awdurdodau lleol Cymru. Mae'n hollbwysig fod y Gymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau yn ystyriaethau canolog wrth gynllunio'r diwygiadau er mwyn sicrhau parhad yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir i'r cyhoedd gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn unol â nod amcan 5 *iaith fyw, iaith byw* i gynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion fel y bo mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

8.2 Fel y nodir yn 3 uchod bydd Awdurdodau Lleol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg o 30 Mawrth 2016 ymlaen. Yn benodol yn y cyd-destun hwn mae safonau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau; hybu'r Gymraeg, a llunio polisiau y mae gofyn ystyried eu heffaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu llunio. Mae'r safonau yn berthnasol i weithgareddau a gyflawnir gan drydydd parti ar ran y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau. Ein dymuniad fyddai sicrhau y byddai'r arfer presennol o ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn parhau mewn perthynas ag unrhyw sefydliadau a fyddai'n gyfrifol am eu darparu yn y dyfodol. Mewn cynlluniau, dogfennau a chanllawiau eraill<sup>3</sup> a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cynigir dulliau amrywiol o drosglwyddo asedau a gwasanaethau i sefydliadau eraill. Rwyf eisoes mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch dulliau o geisio sicrhau y bydd gwasanaethau Cymraeg yn parhau. Er hynny, mae'n bryder gennyf y gallai gwasanaethau Cymraeg gael eu tanseilio wrth drosglwyddo asedau a gwasanaethau i sefydliadau eraill. Mae Asesiad Effaith ar y Gymraeg y Bil yn nodi 'lle defnyddir y pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflenwi amgen ar ran Awdurdod Lleol, er enghraifft rhai sy'n cynnwys cwmnïau cydweithredol, cyrff cydfuddiannol neu bartneriaid eraill, mae'n werth nodi bod y swyddogaeth ddirprwyedig yn dal i fod yn un o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol ac felly'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg'. Tra buaswn yn croesawu hyn buaswn yn dymuno derbyn rhagor o eglurhad yn hyn o beth ynghylch dyletswyddau ieithyddol sefydliadau a fydd yn darparu gwasanaethau yr arferid eu cynnal yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol.

<sup>3</sup> Gweler er enghraifft *Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus: cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori*, Hydref 2015. <http://gov.wales/consultations/improving/alternative-delivery-models-public-service-delivery/?lang=cy>; Y Gweithgor Asedau Cenedlaethol: *Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru – Canllawiau Arferion Gorau*, Mawrth 2015 <http://gov.wales/docs/dpsp/policy/1504010-cat-guidance-cy.pdf> [cyrchwyd 18 Ionawr 2016]



## 9. Rhan 3: Pwyllgorau Ardaloedd Cymunedol

- 9.1 Mae'r Bil Drafft yn cynnig dulliau o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol. Mae hyn wrth reswm, yn fater i'w groesawu. Cynigir y dylai awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau ardal cymunedol i sicrhau y caiff buddiannau cymunedau eu cynrychioli i'r Cyngor. Mae'n hollbwysig y bydd Awdurdodau Lleol yn ymwybodol ac yn ystyried buddiannau siaradwyr Cymraeg. O'r herwydd rwy'n croesawu'r cynnig yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg i gynnwys y Mentrau Iaith yn aelodau o'r Pwyllgorau hyn a dylid sicrhau y manteisir ar bob cyfle posibl i ymgysylltu â mudiadau eraill sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg megis yr Urdd a'r Mudiad Meithrin sydd â threfniadau rhanbarthol yn ogystal.
- 9.2 Mae adran 55-58 y Bil Drafft yn cynnig y bydd modd trosglwyddo swyddogaethau cyngor sir i bwyllgor ardal cymunedol. Eto yn y fan hon dylid nodi bod gofyn i gyngor sir gydymffurfio â safonau'r Gymraeg fel yr eglurir yn 3 uchod. Pe trosglwyddid swyddogaethau cyngor i Bwyllgor Ardaloedd Cymunedol buaswn yn disgwyl y byddai'r Cyngor yn ystyried effaith hynny ar y defnydd o'r Gymraeg ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor ymgymryd â'r swyddogaeth fel pe bai'n cael ei gwneud gan y cyngor.

## 10. Rhan 5: Cyngorau Sir: Llywodraethu yn Well

- 10.1 Mae pennod 2 yr adran hon yn ymwneud â'r gofyniad i gynghorau gynhyrchu cynllun corfforaethol i gynnwys gwybodaeth am strategaethau'r cyngor mewn meysydd penodol. Dylwn nodi y bydd gofyniad ar i gynghorau gyhoeddi chwe math o strategaeth yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 10.2 Ceir cynnig ym mhennod 3 y rhan hon i'w gwneud yn ddyletswydd i gynnal asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu cyngor sir i'w cwblhau ar y cyd gan Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Comisiynydd yn unol â'i nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Buaswn felly yn croesawu gallu cyfrannu at yr asesiadau cyfun hyn ar y cyd â'r sefydliadau eraill a enwir yn y Bil Drafft.
- 10.3 Eto ym mhennod 5 nodir y bydd gofyn i'r rheoleiddwyr perthnasol roi sylw i'r angen am gydlynu wrth arfer swyddogaethau perthnasol ac y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ar gyfer cydlynu'r modd y mae rheoleiddwyr perthnasol yn arfer swyddogaethau perthnasol. Buaswn yn croesawu'r cyfle i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud â hybu a hwyluso'r Gymraeg.

## 11. Rhan 6: Cyngorau Cymuned

- 11.1 Nodir ym Mhennod 1 yr adran hon y bwriedir i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o gynghorau cymuned mewn perthynas a phob un o siroedd Cymru. Wrth wneud yr adolygiad gofynnaf i'r Comisiwn Ffiniau ystyried y defnydd o'r





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Gymraeg yn y cymunedau hynny a wasanaethir gan y cynghorau cymuned er mwyn ceisio sicrhau os bydd newidiadau i ffiniau na fydd hynny'n tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol a chan y cynghorau cymuned fel iaith weinyddol. Yn hyn o beth dylid ystyried y Gymraeg yn rhan o 'unrhyw glymau lleol a fydd yn cael eu datod wrth bennu unrhyw ffiniau penodol' yn unol â 154 (3) y Bil Drafft.

## 12. Rhan 7: Materion y Gweithlu

- 12.1 Mae Pennod 1 y rhan hon yn nodi y Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ynglŷn a materion y gweithlu a bod rhaid i gorff cyhoeddus y dyroddir canllawiau iddo roi sylw iddynt. Credaf y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau penodol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu dwyieithog y mae'n angenrheidiol i'r sector cyhoeddus feddu arno er mwyn gallu cwrdd â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac er mwyn cwrdd â dyhead Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *iaith fyw, iaith byw* o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru; cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion.
- 12.2 Mae Pennod 2 yn ymdrin â Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Rwyf wedi cael trafodaethau adeiladol â Chadeirydd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mawr obeithiaf y bydd modd i'r Comisiwn gyhoeddi strategaethau a chynghor i sicrhau y bydd gweithlu gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cwrdd â gofynion gwlad ddwyieithog.
13. Diolch ichi am y cyfle hwn i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Mae'r Bil Drafft yn cynnig newidiadau sylweddol i Lywodraeth Leol yng Nghymru a hynny ar gyfnod o newidiadau ariannol, cymdeithasol a thechnolegol sylweddol. Mae'r iaith Gymraeg yn wynebu'r un heriau, a hynny ar ddechrau cyfnod newydd o ran model cyfreithiol dyletswyddau ieithyddol Awdurdodau Lleol yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn wyneb y newidiadau hyn sy'n digwydd ar yr un pryd â'i gilydd, a'r heriau enfawr sy'n peryglu'r Gymraeg yn ein cymunedau ac yn genedlaethol, gofynnaf ichi ystyried effeithiau pob un agwedd o'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Drafft hwn ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg